# Y Dinesydd

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

Rhagfyr 2012/Ionawr 2013 Rhif 373 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# Dweud wrth Gaerdydd am stori'r Geni



Mae pawb yn gyfarwydd â hanes Mair a Joseff, a geni Iesu mewn preseb ym Methlehem. Ond a ydyn nhw? Yn ôl ymchwil ddiweddar:

- Nid yw 36% o bobl ifanc 18-24 oed yn gwybod ble cafodd Iesu ei eni.
- Mae llai na 2% o'r cardiau Nadolig sydd ar werth mewn siopau ac archfarchnadoedd yn cynnwys lluniau neu negeseuon sy'n ymwneud â stori'r Geni.
- Mae llai na 50% o blant 7-11 oed yn credu bod y Nadolig yn ymwneud â geni Iesu.

Ddwy flynedd yn ôl dechreuodd eglwyswraig o Benylan ymgyrch i adfer stori'r Geni adeg y Nadolig yn y brifddinas. Cafodd Sally Humble-Jackson y syniad wedi iddi gael ei synnu gan anwybodaeth bechgyn lleol yng Ngharchar Caerdydd o hanes y geni ym Methlehem. 'Doedd y bechgyn hyn erioed wedi clywed am Mair a Joseff na thus na myrr,' meddai. Penderfynodd fod angen cyflwyno stori'r Geni mewn ffordd a fyddai'n hwylus i bobl wrth iddynt siopa ar gyfer y Nadolig yng nghanol y ddinas. 'Dydy ein cyflwyniad ni ddim yn gofyn i bobl fynd i wasanaeth mewn eglwys na chanu caneuon,' meddai. 'Dydyn ni ddim yn efengylu nac yn pregethu: ein nod yw gosod stori'r Geni yn ôl yng nghanol y Nadolig.'



Er gwaethaf tywydd rhynllyd a gaeafol Nadolig 2010 llwyfanwyd 180 perfformiad o *Christmas – The Story / Nadolig – Y Stori* yn Eglwys y Tabernacl yn yr Ais, yng nghysgod canolfan siopa brysur Dewi Sant – 11 perfformiad 20 munud o hyd bob dydd dros gyfnod o bythefnos a hanner. Cefnogwyd y fenter gan dros 150 o actorion amatur a gwirfoddolwyr o eglwysi a chapeli ar draws y brifddinas a daeth miloedd o oedolion a phlant i'r perfformiadau rhad ac am ddim. Cafwyd arweiniad gan unigolion proffesiynol adnabyddus o fyd y theatr a rhoddwyd cryn sylw i'r fenter gan y cyfryngau.

Yn dilyn llwyddiant Nadolig 2010 llwyfanwyd *Christmas – The Story / Nadolig – Y Stori* eto ym mis Rhagfyr 2011 a bydd y cynhyrchiad yn dychwelyd, â chefnogaeth eglwysi a chapeli'r brifddinas, i ganol strydoedd siopau prysur Caerdydd eto eleni – unwaith eto'n rhad ac am ddim.

Gobaith trefnwyr *Christmas – The Story / Nadolig – Y Stori* yw gweld trefi a dinasoedd eraill yn efelychu cynhyrchiad Caerdydd gan ddarparu cyfrwng i adfer stori'r Geni a'i chyflwyno i bobl ar draws gwledydd Prydain. Meddai'r Parchg Denzil John, gweinidog Eglwys y Tabernacl, 'Nod y cyflwyniad yw rhoi cyfle i bobl o bob oed glywed a gweld stori'r Nadolig, gan ddefnyddio actorion a phypedau yn symud, a chyflwyno'r hanes. Bydd yr ymweliad yn rhoi holl ddigwyddiadau'r Ŵyl yn eu cyd-destun priodol, heb bregethu trwm na defnyddio cerddoriaeth sioegerddaidd. Does dim angen papur lapio ar yr hanes syml ond oesol hwn. Anogaf bawb i roi ugain munud i alw heibio a bod yn rhan o'r gynulleidfa. Pwy a ŵyr, efallai mai dyma fydd y rhodd fwyaf y bydd pobl yn ei chael eleni.'



*Lluniau trwy garedigrwydd* ***Christmas – The Story / Nadolig – Y Stori*** (**www.the-story.org.uk**). *Crëwyd y pypedau gan Graeme Galvin.*

**Dyddiadau:** 1-22 Rhagfyr

**Lleoliad:** Eglwys y Tabernacl, Yr Ais

**Amserau'r perfformiadau:** o 10:00 y bore i 6:00 yr hwyr (gydag egwyl fer i ginio)

- Bydd pob perfformiad yn para tua 20 munud.
- Bydd perfformiadau yn y Saesneg ac yn y Gymraeg. Bydd perfformiad am 3:20 bob prynhawn yn y Gymraeg.
- Bydd rhai o berfformiadau'r bore wedi'u neilltuo ar gyfer grwpiau o blant ysgol.
- Perfformiadau cyfyngedig ar y Sul oherwydd gweithgarwch Eglwys y Tabernacl.

# Y Dinesydd


Golygyddion y rhifyn hwn:
**Alun a Mair Treharne**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Bryan James**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn 27 Ionawr i:
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd
CF5 2QB
db.james@ntlworld.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government


# Carnhuanawc a'r Cylch Cinio

Am yr ail dro, ar 9 Tachwedd eleni, eisteddodd aelodau Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn ystafell fwyta Gwesty Churchills gyda'u cyfeillion o Gymdeithas Carnhuanawc ar achlysur Cinio Blynyddol Cymdeithas Carnhuanawc. Eleni y siaradwr gwadd oedd y Barnwr Phil Richards. Clywsom am ei fywyd a'i frwydr i ddysgu'r iaith a'i ymdrechion i'w defnyddio ym myd y gyfraith.

Cadwch lygad ar ddyddiadur *Y Dinesydd*, gwefan Carnhuanawc, www.carnhunawc.org neu ar eich e-bost ar gyfer manylion digwyddiadau Cymdeithas Carnhuanawc. Mae nifer o drefniadau ar y gweill ar hyn o bryd, gan gynnwys Ysgol Fore ar ddydd Sadwrn, 2 Mawrth 2013 yn y Llyfrgell Ganolog gyda'r Athro Jane Aaron, yr Athro John Gwynfor Jones a Dr Dafydd Jenkins.

Yn ystod tri mis cyntaf 2013 bydd y Cylch Cinio yn croesawu Jane Davidson yn siarad am Gymru Gynaliadwy; Gareth Pierce yn siarad am yr ymgyrch i achub pentre Llangyndeyrn rhag cael ei foddi; ac ar ddechrau mis Mawrth, Ioan Kidd. Os nad ydych yn cael manylion cyfarfodydd y Cylch cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Tony Couch, ar ajcouch@yahoo.co.uk



*Y Barnwr Phil Richards gyda Llywydd y Cylch Cinio, Alun Reynolds ar y dde a Chadeirydd Cymdeithas Carnhuanawc, Keith Bush, ar y chwith.*

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd Dda i holl ddarllenwyr Y Dinesydd

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT

## Trysorydd Newydd

Mae Pwyllgor *Y Dinesydd* yn falch o gyhoeddi bod gyda ni drysorydd newydd, sef Huw Roberts, sy'n gyfrifydd yn yr Eglwys Newydd. Bydd ein darllenwyr yn gyfarwydd â gweld ei enw yn ein colofnau gan ei fod yn weithiwr brwd dros elusennau.

Gwahoddir caredigion *Y Dinesydd* sy'n dymuno cyfrannu at gynnal ein papur bro i anfon eu rhoddion at Huw yn 6 Heol Alfreda, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH.

Diolchwn i Cynthia Evans am ei gwasanaeth yn drysorydd yn y gorffennol ac i Nia Jones am lanw'r bwlch yn ddiweddar.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein darlith gyntaf ar nos Lun, 15 Hydref 2012, aeth Guto Owen o gwmni Ynni Glan â ni ar daith o amgylch Ewrop mewn car yn defnyddio'r nwy hydrogen fel tanwydd. Eglurodd Guto mai celloedd tanwydd a ddyfeisiwyd gan Robert Grove yn Abertawe yn 1842 fydd y tanwydd nesaf i yrru ceir ar draws y byd. Bydd y garej lawr y ffordd yn gwerthu nwy hydrogen wrth y litr, a bydd peiriant eich car yn ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan i yrru'r car gan gynhyrchu dim byd mwy peryglus na dŵr yn y broses. Cipolwg diddorol iawn ar ddyfodol ein trefi!

Yn ein hail gyfarfod, ar nos Lun, 19 Tachwedd 2012, daeth Huw Morgan, sydd yn dal swyddi ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Hawaii a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i siarad â ni am 'Stormydd ar yr Haul'. Adroddodd sut y bu ef a'i dîm yn astudio digwyddiadau rhyfeddol fel stormydd magentic anferth a chorwyntoedd yn atmosffer yr Haul. Defnyddiodd luniau a ffilmiau byrion trawiadol dros ben a dynnwyd gan loerenni i ddangos rhai o'r ffenomenau cymhleth sy'n digwydd ar ein seren agosaf. Eglurodd mai un o amcanion y gwaith yw cael gwell dealltwriaeth o sut mae 'tywydd' ar yr Haul yn effeithio ar ein Daear; beth yw'r arwyddion bod storm fawr ar y ffordd a sut y gallwn ddarogan hynny'n well. Gwaith pwysig iawn o'r Coleg ger y Lli.

Mae ein rhaglen lawn i'w gweld ar wefan y Gymdeithas: http://www.cymdeithaswyddonolcaerdydd.org/

Gobeithiwn weld mwy ohonoch yn ein cyfarfodydd nesaf.

**Rhys Morris, Cerian Angharad**
*(Ysgrifenyddion y Gymdeithas)*

# Merched y Wawr Bro Radur

Croesawyd Lleucu Siencyn i gyfarfod y gangen ym mis Hydref gan Nia Jones a chafwyd sgwrs ddiddorol ar waith Llenyddiaeth Cymru. Soniodd Lleucu am gyrsiau yn Nhŷ Newydd (hen gartref Lloyd George), teithiau llenyddol a'r her a roddwyd i'r tîm a enillodd gystadleuaeth y Talwrn eleni, sef cyfansoddi 100 o gerddi mewn 24 awr ar gyfer dathlu Diwrnod Barddoniaeth!

Cafodd dwy aelod newydd eu croesawu a chafwyd adroddiad ar benwythnos preswyl yn Llanbedr Pont Steffan, gan atgoffa pawb y cynhelir un 2013 yng Nghaerdydd.

Daeth nifer da ynghyd i gyfarfod mis Tachwedd i glywed Cadeirydd y noson, Rhiannon Evans, yn cyflwyno ein gŵr gwadd fel 'gwyrth o ddyn'! Pwy oedd e? Wel, neb llai na Threfnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, Hywel Wyn Edwards. Cafwyd hanes ei blentyndod yng Ngheredigion a'i gysylltiad ag eisteddfodau ers dyddiau ysgol, tipyn o hanes eisteddfodau'r gorffennol ynghyd â ffeithiau diddorol am y Brifwyl fodern. Difyr oedd clywed am y newidiadau a datblygiadau dros y blynyddoedd a gwaddol ymweliad y Genedlaethol. Sgwrs ddiddorol a chartrefol iawn.

Croesawyd aelodau newydd a chydymdeimlwyd â theulu Margaret Davies. Daeth tîm cwis y gangen yn drydydd yn y rhanbarth! Da iawn nhw!

Edrychwn ymlaen at ddathliad Santes Dwynwen am 7:30 p.m. yng Nghlwb Golff Radur ar nos Wener 25 Ionawr 2013! Bydd cinio a chyngerdd yng nghwmni Côr y Waun Ddyfal. Mae tocynnau ar gael gan Rose Evans 21154289.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

# Darllen 'Dolig gan awduron lleol


## Lyn Jones a Mel Hopkins: *Y Groes Naidd*




Ar 20 Tachwedd, yn y *Mochyn Du*, cynhaliwyd lansiad *Y Groes Naidd*, nofel antur newydd gan ddau awdur o Gaerdydd, Lyn Jones a Mel Hopkin. Disgrifiodd Elinor Wyn Reynolds o Wasg Gomer sut y bu iddi dderbyn teipysgrif gan y ddau awdur ddwy flynedd yn ôl: cystal oedd y gwaith, ni fedrai gredu nad oedd y ddau eisoes wedi cyhoeddi ac nad oedd sôn amdanynt ar y we! Dilynwyd Elinor gan Lyn a Mel – nid yn unig maent yn awduron heb eu hail, ond maent hefyd yn siaradwyr difyr a bachog! Gallwch wylio cyflwyniad Elinor a sgwrs gyda'r awduron ar wefan Sianel 62, http://gwefan.sianel62.com/?p=540 neu chwiliwch ar y we am 'Y Groes Naidd: blas o'r nofel newydd – a chyfweliad'. Yn y fideo, mae Lyn a Mel yn trafod sut mae dau awdur yn gweithio ar un nofel. [Gwasg Gomer; £7.99]

**Dafydd Saer**

## Roger Boore: *Taith trwy Dde Sbaen*




Mae Gwasg y Dref Wen newydd gyhoeddi *Taith trwy Dde Sbaen*, chweched llyfr Roger Boore o'r Eglwys Newydd. Mae'n adrodd anturiaethau Roger a'i wraig Anne wrth grwydro trwy Andalucía, yn ne eithaf Sbaen, gan ymweld â dinasoedd hynafol megis Córdoba, Sevilla a Granada. Ceir sôn am brydau bwyd annisgwyl, rhuthr trwy'r Alhambra, fforest mewn mosg, y Costa del Sol yn troi'n Costa del Glaw, a llawer mwy. Yn ôl ei arfer, mae Roger Boore yn cynnwys nifer o straeon hanesyddol bachog, megis am lofruddiaeth y dramodydd Federico García Lorca a hirymarhouster Manuel Cortés, a fu'n cuddio am dri deg o flynyddoedd rhag dialedd Franco. 'Darlunio trwy eiriau a wna Roger Boore,' meddai'r Athro John Rowlands, wrth adolygu'r gyfrol. 'Mae hwn yn llyfr gwerth ei ddarllen, pa un a fyddwch yn mynd i dde Sbaen neu beidio.' [Dref Wen; £4.99]

## Ho! Ho! Ho!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* oddi wrth bawb yn swyddfa Menter Caerdydd!

## Miri 'Dolig

Bydd y Fenter yn cynnal sesiwn arbennig o Firi Meithrin, ddydd Sadwrn, 8 Rhagfyr, yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed rhwng 2:00 p.m. a 4:00 p.m. Dewch i gwrdd â Sion Corn, i ganu a dawnsio gyda Martyn Geraint ac i gwrdd â Sam Tân a Sali Mali. Bydd gweithdai celf a chrefft, castell gwynt a llawer mwy! Croeso i blant 0 - 4 blwydd oed a'u rhieni.

Nid oes angen tocynnau o flaen llaw - £4.00 y plentyn/babi wrth y drws. (Mynediad yn rhad ac am ddim i rieni.)

## Cyrsiau'r Flwyddyn Newydd i oedolion

Mae Menter Caerdydd yn cynnal nifer o ddosbarthiadau dydd a nos i oedolion ar ddechrau 2013. Bydd croeso i aelodau hen a newydd yn y cyrsiau sy'n parhau yn y Flwyddyn Newydd - Cadw'n Heini 55+, Ymarfer eich Gitâr, Cwiltio, Clytwaith, Gwno a Gwau, Eidaleg, Sbaeneg a Ffotograffiaeth. Yn ogystal â'r cyrsiau uchod, bydd dau gwrs newydd sbon yn dechrau yn ystod mis Ionawr hefyd - Sgriptio ac Ymarfer *Circuits*. Os hoffech gofrestru ewch i'n gwefan - mentercaerdydd.org - neu cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org (02920 689888).

## Clybiau plant Ionawr 2013

Bydd holl glybiau plant y Fenter yn parhau yn y Flwyddyn Newydd, a'r niferoedd yn mynd o nerth i nerth. Yn ogystal â'r clybiau presennol bydd Clwb Criced dan do newydd yn dechrau ar 17 Ionawr yn y Ganolfan Griced Genedlaethol i blant Blwyddyn 4. Bydd sesiwn nofio ychwanegol i ddechreuwyr yn dechrau hefyd yn Nhreli rhwng 10:30 a.m. ac 11:00 a.m. ar 12 Ionawr gan fod y sesiynau presennol i gyd yn llawn. Am ragor o fanylion ewch i mentercardydd.org neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org

## Plantos Heini

Cwrs newydd i hybu datblygiad corfforol plant rhwng 2 a 4 oed yw *Plantos Heini*, gan fagu hyder mewn awyrgylch hwylus ac anffurfiol. Bydd y cwrs 10 wythnos yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Ieuenctid Canol Caerdydd yn Sblot ac yn dechrau ddydd Gwener, 11 Ionawr. Cost y cwrs fydd £30. Am fwy o fanylion ewch i wefan y Fenter, neu ebostiwch marirhys@mentercaerdydd.org. Mae'r cwrs yn cael ei drefnu mewn partneriaeth rhwng y Fenter ac Adran Chwaraeon yr Urdd.

## Tafwyl 2013

Â phleser mawr gallwn gadarnhau dyddiad Gŵyl Tafwyl 2013, sef dydd Sadwrn, 15 Mehefin. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant Tafwyl 2012 ac unwaith eto'n cynnal prif ddigwyddiad yr ŵyl yng Nghastell Caerdydd. Bydd prif lwyfan gyda pherfformiadau byw gan artistiaid gwerin, roc a phop mwyaf llwyddiannus y sn gerddoriaeth Gymraeg, sesiynau acwstig, sesiynau celf, gweithdai drama a llenyddiaeth, maes chwaraeon, gweithgareddau i blant o bob oedran, a llawer mwy. Bydd llu o ddigwyddiadau ar hyd a lled y ddinas yn dilyn y diwrnod yn y castell - gyda'r dathliadau'n parhau tan nos Wener, 21 Mehefin. Cofiwch gadw golwg ar y wefan - www.tafwyl.org, ein tudalen Facebook, a'n cyfrif Twitter am y wybodaeth ddiweddaraf.

## Cwis y *Mochyn Du*

Bydd cwis Nadolig y Fenter yn cael ei gynnal nos Sul, 16 Rhagfyr a bydd cwis cyntaf 2013 ar nos Sul, 27 Ionawr yn y *Mochyn Du* am 8:00 p.m. £1 y person. Croeso cynnes i bawb! Cofiwch fod y cwis ar nos Sul olaf bob mis (heblaw am gwis y Nadolig!)

## Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen

Beth am drefnu 'DWYNWEN–O–GRAM' i rywun arbennig i ddathlu gŵyl Santes Dwynwen ar 25 Ionawr?! Enwebwch eich gŵr, gwraig, cariad, ffrind i dderbyn 'DWYNWEN-O-GRAM' arbennig Menter Caerdydd! Fe fydd TRI pherson lwcus yn derbyn tusw o flodau arbennig Dwynwen i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen ar 25 Ionawr 2013. I enwebu, ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org gan nodi pwy sy'n haeddu'r 'DWYNWEN-O-GRAM' a pham! Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw dydd Llun, 21 Ionawr 2013.

## 'Pythefnos perffaith ar y Paith'

Dyna sut y disgrifiodd Anna Powys o Ysgol Plasmawr y daith ar ddiwedd mis Hydref pan ymwelodd 22 o bobl ifanc â'r Wladfa yn rhan o gynllun ar y cyd â'r Mentrau Iaith ac Urdd Gobaith Cymru. Bu Menter Iaith Patagonia yn cydweithio i gynnig profiad arbennig iawn i'r criw o ddisgyblion o sawl ysgol, gan gynnwys Ysgol y Preseli, Maes yr Yrfa, Bro Morgannwg a Phlasmawr. Yn ystod eu hymweliad bu'r criw yn brysur iawn yn peintio waliau Ysgol Feithrin y Gaiman ac Ysgol Gymraeg yr Andes; yn dysgu sesiynau i ddisgyblion Coleg Camwy; yn cystadlu yn Eisteddfod y Wladfa ac yn cymryd rhan mewn sawl cyngerdd, cymanfa ganu a thwmpath. Yn ogystal â bod yn brofiad bythgofiadwy i'r criw,



*Pythefnos Patagonia: gwn ar wyneb pawb!*




*Pythefnos Patagonia: gwneud ffrindiau bach newydd*

bu hefyd yn gyfraniad gwerthfawr iawn i'r gymuned Gymraeg ym Mhatagonia. Meddai Rhun Wmffre Dafydd o Ysgol Bro Morgannwg, 'Pythefnos gorau fy mywyd! Profiad anhygoel, lle anhygoel gyda phobl anhygoel!'

### Cr Plant Caerdydd

Yn ystod mis Tachwedd rydym wedi cyfweld dros 1000 o blant ac wedi ymweld mwy na 12 o ysgolion er mwyn dewis 100 o blant i fod yn aelodau o Gr Plant Caerdydd. Bydd y cr, dan arweiniad Mrs Marian Evans, yn cynnwys plant o Flynyddoedd 4, 5 a 6 o bobl ysgol Gymraeg yn y ddinas. Nod y cr newydd fydd datblygu a dysgu sgiliau corawl a lleisiol, perfformio a chynnig cyfleoedd i gymdeithasu phlant o ysgolion gwahanol. Bydd y cr yn cwrdd yn festri Capel Salem, Treganna, bob nos Lun rhwng 4:30 p.m. a 5:30 p.m., gan ddechrau ym mis Ionawr. Am fwy o wybodaeth, neu os hoffech drefnu perfformiad gan y cr, peidiwch ag oedi cysylltu leanne@mentercaerdydd.org neu ffoniwch 2068 9888.

### Rhaglen hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Menter Caerdydd wedi cydlynu rhaglen o gyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer unigolion sy'n gweithio, sy'n astudio neu'n gobeithio dilyn gyrfaoedd ym meysydd gofal plant, addysg, chwarae neu waith ieuenctid. Rydym wedi bod yn trafod yn helaeth gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid cyn cadarnhau'r cyrsiau er mwyn sicrhau bod yr arlwy yn addas, yn rhesymol ac yn berthnasol. Mae nifer o'r cyrsiau'n cynning achrediad Lefel 2, neu dystysgrif/gymhwyster gan gyrff cenedlaethol a bydd y ffioedd cofrestru yn amrywio o £20 i £60. Bydd y rhaglen lawn ar gael i'w lawrlwytho yn ystod mis Rhagfyr, a bydd y cyrsiau'n cael eu cynnal rhwng Ionawr a Mehefin 2013. I dderbyn y wybodaeth yn electronig cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org, neu ewch i'r wefan am rhestr lawn o'r cyrsiau. Mae'r holl gyrsiau'n cael eu cynnal mewn partneriaeth Chyngor Caerdydd.

# Colofn G.R.

Ar hyn o bryd dw i'n eistedd yng nghegin 'Yr Hen Bost', sef tŷ fy ffrindiau Sïon a Rebeca yn y Gaiman yn Nyffryn Camwy, ac yn sgrifennu hyn o eiriau ar ôl gwylio Cymru yn colli'n rhacs yn erbyn yr Ariannin! Odd y gêm yn fyw ar y teledu yma hefo'r sylwebaeth yn Sbaeneg!

Mae'r tywydd ar y cyfan wedi bod yn heulog a chynnes ers i mi gyrraedd gan ei bod yn wanwyn ac mae'r Dyffryn yn brysur lasu. Heddiw mae'r tywydd yn boeth yn hytrach na chynnes ac mae sôn y bydd hi'n boeth eto'r wythnos nesa!

Amser te heddiw byddaf yn mynd i ffarm 'Bod Iwan' yn ardal Bryn Crwn i gael te hefo rhai o deulu R. Bryn Williams, cyn-Archdderwydd Cymru, pregethwr, bardd, llenor ac awdur y cyfrolau *Y Wladfa* a *Bandit yr Andes*. Bu Glyn Williams, mab 18 oed Waldo a Fabiana, yng Ngholeg Llanymddyfri ym mis Ionawr am dymor ac yna aeth ar gyrsiau Cymraeg yn y gogledd a threulio amser yng Ngwersyll yr Urdd yn y Bala, ond erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd o'n ôl yn 'Bod Iwan' hefo'i deulu.

Teithiais i draw i'r Ariannin hefo cwmni hedfan KLM o Gaerdydd i Amsterdam ac oddi yno i Buenos Aires. Gohiriwyd fy hedfaniad o chwech y bore tan saith oherwydd y niwl yn Amsterdam: odd hyn yn golygu bod perygl i mi golli fy hedfaniad i Buenos Aires o Amsterdam, ond trwy lwc gohiriwyd yr hedfaniad hwnnw hefyd am awr ac felly ces i gyrraedd pen fy nhaith yn ddiogel. Pen gyrhaeddais odd hi'n bwrw glaw yn drwm yn Buenos Aires! Dyna beth odd croeso Cymreig go iawn!

Arhosais dros nos yn y brifddinas cyn teithio i Drelew y pnawn wedyn. Ces i gwmni gwraig o'r enw Fali Irianni (James gynt) a thra on ni'n sefyll yn y ciw i ddal yr awyren i Drelew soniais i'n chwareus wrth fy nghyd-deithwraig fy mod i'n siomedig nad on i wedi gweld neb on i'n nabod yn y maes awyr! Gyda hyn dyma wraig yn y ciw o'n blaenau yn troi ac yn dweud fy enw! Odd hi'n dod o'r Gaiman ac yn fy nabod!

Cyrhaeddais i'r Gaiman mewn pryd i gymryd rhan yn seremoni gorsedd Patagonia i dderbyn aelodau newydd. Un ohonyn nhw oedd Isaias Grandis, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Grŵp o bobl ifanc Ysgol Gerdd y Gaiman ddawnsiodd yn lle'r ddawns flodau draddodiadol ac on nhw'n dawnsio'n arbennig o dda hefyd.

Roedd llond gwlad o Gymry draw ar gyfer yr eisteddfod gan gynnwys Côr Taith y Paith o ardal y Bala a chriw o bobl ifanc yr Urdd o dde Cymru. Cafwyd cystadlu brwd. Leah Owen odd y beirniad canu a chafodd ei phlesio'n arw gan safon y cystadlu. Gŵr o ochrau'r Bala enillodd cadair yr eisteddfod ac odd o'n canu efo Côr Taith y Paith! Mwynheais i'r eisteddfod yn fawr a chyn dychwelyd i Gymru byddaf yn mynd i'r Andes i fynychu eisteddfod arall, sef Eisteddfod Trevelin.

Mae'r Gymraeg yn dal yn fyw yma a phleser ydy clywed acen Batagonaidd sy'n soniarus i'r glust. Mae 'na ddysgu Cymraeg ymhlith plant ac oedolion a dangosir llawer o frwdfrydedd dros 'y pethe'; anodd credu weithiau eich bod filoedd o filltiroedd o Gymru wrth glywed y Gymraeg o'ch cwmpas.

Os nad ydych chi wedi bod draw i Batagonia, wel mynnwch gyfle i brofi croeso twymgalon disgynyddion y *Mimosa* ac i fwynhau golygfeydd anghyffredin a hardd yr Andes a'r Dyffryn.

# Ôl-Lwybrau

A dyma fi wedi cytuno i sgrifennu pwt bach i'r *Dinesydd*. Sut ar y ddaear ddigwyddodd hynny, meddech chi? Wel, alla i ddim yn fy myw ddweud 'Na' wrth y rhai sy'n gweithio mor galed i gynnal ein papur bro. Mae e'n werthfawr ac yn annwyl i ni i gyd, on'd yw?

Rwy wedi byw yng Nghaerdydd am ddeugain a chwech o flynyddoedd erbyn hyn a rhaid dweud 'mod i'n hollol hapus a chartrefol yma ac yn teimlo'n falch iawn o'n prifddinas hardd. Ond ces fy ngeni a'm magu mewn ardal hollol wahanol, yn Sir Gaerfyrddin.

Merch fferm ydw i o ardal Bethlehem, Dyffryn Ceidrych, sydd yng nghanol y wlad rhwng Ffairfach a Llangadog. Deg o blant oedd yn ysgol gynradd Bethlehem pan oeddwn i yno, a dau athro. Y cof sy gen i o'r blynyddoedd hynny yw'r troeon ar lan yr afon yn gwylio'r brithyll; cerdded o dan y coed, eu henwi ac adnabod siâp eu dail; casglu blodau gwylltion; dysgu hwiangerddi a chaneuon gwerin ein gwlad. A'r daith gerdded o filltir a hanner yn ôl adre ar ddiwedd y dydd gan slwtshan mewn cwteri a chasglu mwydod, malwod, ambell fadfall neu unrhyw greadur llysnafeddog arall a welwn ar ein ffordd...NEFOEDD! Ychydig a feddyliais bryd hynny y buaswn inne, yn fy nhro, yn athrawes mewn ysgol gynradd, a honno mewn dinas fawr.

Fy swydd gyntaf yn y ddinas oedd dysgu Cymraeg yn ysgol gynradd fawr Kitchener, Treganna. Byddwn yn symud o ddosbarth i ddosbarth, yn gwneud fy ngorau glas i roi ychydig o Gymraeg ar dafodau plantos o dras Indiaidd, Pakistani, Banglaseshi, India'r Gorllewin ... a Kaardiff wrth gwrs! ... nes i rai ohonyn nhw ddod ataf yn llawn brwdfrydedd rhyw fore ym mis Medi a dweud, 'We've been to Wales on holiday, Miss!' Wel! ... Daearyddiaeth oedd fy mhwnc am rai wythnosau wedi hynny!

Diolch i'r nefoedd, mae agweddau wedi newid yn y ddinas ers hynny. Os nad yw'r plant yn yr ysgolion Saesneg yn siarad Cymraeg yn rhugl, maen nhw'n sicr yn fwy nag ymwybodol o'r iaith yn awr ac mae eu teuluoedd yn gwybod bellach taw Caerdydd yw prifddinas Cymru.

Ro'n i'n hapus yn Kitchener yn nhymor yr hydref ac yn nhymor yr haf. Ond roedd tymor y gwanwyn yn dipyn o straen. Dyma pryd roedd rhaid gwneud sbloets enfawr o gyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a fi, dim ond y fi, oedd yn gyfrifol am hwnnw. Hynny yw, doedd yr athrawon eraill ddim yn gweld bod angen cymorth ar yr athrawes ifanc – a bob blwyddyn cyn Mawrth y cyntaf, ro'n i eisiau gweithio yn Woolworths!

A siarad am Woolworths, mae gen i atgof doniol. Bydd nifer ohonoch, rwy'n siwr, yn cofio sut y byddai'r drafnidiaeth yn rhedeg trwy ganol Caerdydd ers talwm ar ffordd fawr brysur Queen Street, a'r palmentydd yn fwrlwm gwyllt o gyrff dynol yn gwthio yn erbyn ei gilydd wrth siopa, heb le i droi. Daeth fy mam a'i ffrind Jenny i siopa yng nghanol y dyrfa hon, a medde Mam, yn ei Chymraeg gorau (!), 'O, mae'r pushchairs ma'n niwsans!' Cafodd ateb go chwim a llym gan un o'r mamau, 'Well, we've got to have them!' Trodd Jenny at Mam mewn syndod a dweud, 'Wel Neli fach, odd honna'n deall Cymra'g!'

Petaen nhw'n dod heddiw, bydden nhw'n synnu a rhyfeddu wrth glywed a gweld cymaint o'r Gymraeg o'u cwmpas. Dyna braf yw gweld y ddinas yn arddangos ei Chymreictod. Efallai bod y 'gwybodusion' yn deall o'r diwedd bod dwyieithrwydd yn ddeniadol ac yn denu twristiaid i Gaerdydd am ei bod yn wahanol i'r dinasoedd eraill.

Ymlaen ar hyd y llwybr yr es wedyn i weithio yn y sector Gymraeg a chael swydd yn Ysgol Bryntaf, yr unig ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd. Ces y fraint o gael cydweithio â thîm o athrawon gwych a brwd â thân yn eu boliau dros yr achos. Bu'r ysgol hon ar sawl safle yn y ddinas wrth iddi dyfu, ond i adeilad Viriamu Jones yn Gabalfa yr es i ymuno â hi, gan deithio ar fws y disgyblion bob bore. Rwy'n cofio'n glir i ddyn yn ei byjamas un bore daflu ei frecwast o gig moch ac wy at y bws a gweiddi, 'Go home, you Welshies!' Mae'r *Welshies* yn hawlio eu cartref nawr wrth i'r ysgolion Cymraeg godi fel madarch ar hyd y ddinas.

Bu canu yn rhan annatod o'm bywyd ers y dechrau am i finnau, pan oeddwn yn ifanc, gael bod mewn côr plant. Arweiniodd hynny i mi ddal ati i ganu mewn corau yma yn y ddinas ac, wrth gwrs, i gyfnod hwylus a phleserus iawn o bron ugain mlynedd yn canu gyda Gaynor a Meleri yn y Diliau ym mhob twll a chornel o Gymru.

Darganfyddais fy nheulu trefol yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd. Ein hysgol ni – fy ysgol i. Dyma'r blynyddoedd aur i mi a dweud y gwir, a'r pinacl oedd sefydlu Côr Plant Caerdydd gyda Sandra Semmens. Daeth cyfle i dalu'r ddyled yn ôl i'm rhieni ac i'r rhai hynny a lywiodd fy ffordd i fwynhau cerddoriaeth.

Credaf fod amser i bob dim, a nawr, wedi ymddeol, rwy'n rhydd i drefnu'r diwrnodau fel y mynnaf ... (wel, ar ôl i mi gael Pete, fy ngŵr, i gytuno!) Mae bywyd yn ddiddorol, ac ymysg pethau eraill, caf ddysgu siarad Eidaleg, gwneud tamed o arlunio, helpu dysgwyr Cymraeg ar eu ffordd, potshan, galifanto ... a dal i joio!

**Mair Robins**

## Cydymdeimlo â

- theulu'r diweddar Judith Morris, Llandaf, a fu farw ar 14 Tachwedd wedi cystudd hir;
- teulu'r diweddar Marjorie Pate, Y Barri, a fu farw ar 15 Tachwedd yn 92 oed.


## Capel y Rhath

Heol Pen-y-wain, Y Rhath, Caerdydd, CF24 4GG

**Oedfa Bregethu Gymraeg wythnosol**

am 3.30 brynhawn Sul yn adeilad Tabernacle Cardiff.

Darperir cyfieithiad.

Oedfaon Arbennig:

Noson o Garolau **Nos Iau Rhagfyr 6ed am 7.30yh**

Croesawu'r Nadolig **Nos Iau Rhagfyr 24ain am 11.15yh**

**Croeso cynnes i bawb.**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Alun Higham (029) 20689985 alunhigham@capelyrhath.org

Cyswllt Fideo Byw ar y We. www.capelyrhath.org

# COLOFNYDD Y MIS

## Rhoswen Deiniol

**Dathlu'r 60**

Yng nghanol prysurdeb y codi arian a pharatoadau'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Fro, fe sylweddolwyd bod gennym ni, yn y Barri, achos arall i'w ddathlu eleni. Yn ychwanegol at groesawu'r Ŵyl Fawr i'n Bro mae eleni'n ben-blwydd arbennig i'w nodi sef - Dathlu Chwe Deg Mlynedd o Addysg Gymraeg yn y Fro.

Gohiriwyd unrhyw gynlluniau dathlu nes ar ôl yr wythnos fawr yn Awst. Codwyd y cwestiwn, 'A oes angen dathlu, pan fo twf addysg Gymraeg yn ehangu i bob cyfeiriad – o addysg feithrin hyd at addysg prifysgol?'

Wrth fwrw golwg yn ôl mae'n anodd dychmygu'r ymdrech a'r ymladd, y pwyllgora a'r codi arian, er mwyn sefydlu'r hawl i blant yn ardal y Barri dderbyn addysg Gymraeg. Mae hynny ynddo'i hun yn ddigon o reswm i ddathlu ac i dalu teyrnged i'r ymgyrchwyr cynnar.

Ym 1951, mewn cyfarfod yng nghartref Mr a Mrs Dan Evans yn 9 Park Road, y sefydlwyd Pwyllgor Ysgol Gymraeg y Barri. Ymhlith y rhai fu'n bresennol roedd Aneurin Talfan Davies, Dan Evans, E. Hall Williams, Glyn Ashton, Dr Edgar Jones, T. Raymond Edwards, Gwynallt Evans, S. O. Rees, Ellen Evans, Blodwen Jenkins, Alcwyn Evans a Vincent Pate.

Roedd rhaid i'r pwyllgor geisio darbwyllo Cyngor Sir Forgannwg o'r angen i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yn y Barri, ac felly, mewn festri capel yn Nhregatwg, fe gychwynnodd yr arbrawf preifat o gynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwaith caled i'r pwyllgor oedd ariannu'r fenter yn y misoedd cyntaf a thalu cyflog athrawes, ond erbyn mis Ionawr 1952 fe ddaeth Ysgol Gymraeg y Barri o dan adain yr Awdurdod Addysg Lleol. Roedd enwau pedwar ar bymtheg o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Sefydlwyd Ysgolion Meithrin yn y Barri a'u llwyddiant hwy oedd yn bennaf gyfrifol am dwf a datblygiad yr Ysgol Gymraeg. Tyfu a llwyddiant fu hanes addysg Gymraeg yn y Barri, a symudwyd yr ysgol o'r festri capel i Ysgol Sant Ffransis ym Mhorth y Castell ym 1956.

Heddiw mae saith o ysgolion cynradd Cymraeg ar draws y Fro ac un ysgol gyfun. Mae pedair ysgol gynradd yn nhre'r Barri. Erbyn Haf 2012 roedd 2,361 o ddisgyblion yn y Fro yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Oes achos dathlu? Oes, yn sicr.

Ym mis Hydref, i nodi pen-blwydd arbennig sefydlu'r ysgol Gymraeg gyntaf, cynhaliwyd cyfarfod dathlu gan Gymdeithas y Cymrodorion yng Nghapel y Tabernacl. Cafwyd cyngerdd gan ddisgyblion o ysgolion Sant Baruc, Sant Curig, Gwaun-y-Nant ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Llywydd y noson oedd Heulwen Cooper, Heulwen Jenkins gynt - yn briodol iawn gan mai hi oedd y disgybl cyntaf ar gofrestr Ysgol Gymraeg y Barri ym 1952.

Ym mis Tachwedd daeth tyrfa ynghyd i westy *Mount Sorrel* i Ginio Dathlu. Cafwyd noson o fwrlwm ac atgofion melys, cyfle i gyfarfod â hen wynebau ac i ddiolch am weledigaeth criw bychan am iddynt fynnu cael Ysgol Gymraeg i'w plant yn nhre'r Barri drigain mlynedd yn ôl.

Ar achlysur y dathlu canodd Euryn Ogwen Williams dribannau Morgannwg i holl ysgolion y Fro:

**1952 – 2012:**
**Y 60 Mlynedd Cyntaf**

Aeth chwe deg mlynedd heibio
Ers dyddiau dewr y mentro
A chriw o blant yn gwneud eu rhan
A fan Siop Dan i'w cludo.

Aeth rhai i Goed yr Odyn
Ac i Sant Ffransis wedyn
Ac yn Sant Baruc aelwyd deg
I hedeg fel aderyn.

Yn y Bontfaen rhoes Iolo
Ei enw i'r ysgol yno
A draw ar gyrion tref Penarth
Daeth Penygarth i lwyddo.

Sant Curig a Nant Talwg
A Gwaun-y-Nant, Tregatwg
Ac yn Llanilltud, Dewi Sant
I'r plant cyn Bro Morgannwg.

Drwy ddawn athrawon diwyd
Yn gosod seiliau mebyd
Fe gawsant addysg yn eu hiaith
Wrth gychwyn taith eu bywyd.

*EOW*

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Cam wrth Gam

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle – a derbyn grant hyfforddiant tra'n astudio.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd ac ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth:
**☎ 01970 639 601**
**post@camwrthgam.co.uk**
**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 14 Ionawr, 2013.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**www.meithrin.co.uk**

# YSGOLION

## Ysgol Bro Edern

**Ymweliad arbennig**

Ar 22 Hydref cawsom ymweliad arbennig gan y Cynghorydd Magill. Bu'r Aelod Cabinet dros Addysg yn ymweld â gwersi ac yn cwrdd â'r Cyngor Ysgol; mynychodd hefyd wasanaeth ysgol lle cafodd y pleser o wrando ar Harriet Casey yn perfformio ar y cornet a pherfformiad cyhoeddus cyntaf côr yr ysgol.

**Profiad disgybl: Llangrannog**

Ym mis Tachwedd cawsom wythnos llawn hwyl yn y gwersyll. Yn ystod yr wythnos cawsom gyfle i gwrdd â disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol y Berllan Deg. Roeddem ni wedi ein gwahanu mewn i saith grŵp i wneud y gweithgareddau dydd ond yn dod at ein gilydd gyda'r nos. Roedd yna hefyd gyfle i 6ed dosbarth Ysgol Glantaf ddod i'n helpu fel 'swogs'. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd y gwibgartio neu'r sgïo. Ar y wal ddringo a'r rhaffau uchel roedd llawer yn ofni uchder, ond fe wnaethon ni helpu ein gilydd. Ar y noson olaf cawsom Noson Lawen. Cafodd pawb hwyl yn perfformio ar y noson, yn arbennig yr athrawon a'r 'swogs'! Diolch i bawb!

*Rhiann Tregidon-Bellew*

**Profiad disgybl: Diwrnod ABCh**

Roedd diwrnod ABCh Iechyd a Ffitrwydd ym mis Tachwedd. Yn gyntaf cefais i wers am faeth lle dysgais am yr holl gategoriau bwyd. Mewn sesiwn arall roedd rhaid i bawb wneud prawf ffitrwydd a chefais i sgôr gwell na'r tro diwethaf. Chwaraeon ni gêm o bêl-osgoi, ac roedd hwnnw yn bendant wedi gwneud i'm calon i guro'n gyflymach! Gwers arall yn ystod y dydd oedd sesiwn am lendid personol - diddorol iawn! Yn y wers olaf cefais sesiwn Celf ac roedd rhaid i'r grŵp greu un o'r categoriau bwyd fel plât bwyd. Diwedd da i'r diwrnod ABCh.

*Amelia Giles*

**Llongyfarchiadau i...**

- Rivel Mardenborough ar gael ei ddewis i garfan bêl-droed ysgolion Dinas Caerdydd.
- Miss Ceri Anwen James, Arweinydd yr Adran ITM, ar ennill y wobr ryngwladol arbennig am E-ddysgu.

## Ysgol Glan Morfa

**Croeso**

Bu hanner tymor cyntaf eleni yn un prysur iawn. Penodwyd Mrs Rhian Carbis yn ddirprwy bennaeth ar yr ysgol yn yr haf a chychwynnodd ar ei gwaith ym mis Medi. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd. Croeso hefyd i dri o athrawon newydd – Mr Anthony Jones, Miss Lowri Rees a Miss Rhiannon Tinsley.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Lloyd a'i gŵr ar enedigaeth Elsa Alys. Dymunwn yn dda i'r tri ohonynt.

**Bwydydd iach**

Treuliodd Blwyddyn 1 a 2 gyfnod yn dysgu am fwydydd iach. Roedd blas arbennig ar gawl pwmpen Blwyddyn 1 ac yn ôl un o blant Blwyddyn 2, roedd y smwddi cyntaf mor flasus roedd rhaid cael un arall!

***Incredible Edibles***

Trafod bwydydd gwahanol iawn wnaeth Blwyddyn 5 a 6 pan ddaeth criw rhaglen *Incredible Edibles* CBBC i'r ysgol. Wrth drafod â'r criw ffilmio, dywedodd Cody Norman o B5 ei bod yn casáu bwyta corgimwch ers iddi gael llond ceg o blisgyn wrth ei fwyta ar un achlysur. Gwnaeth yr wyneb hyllaf erioed i'r camera!

**Bwyty Jamie Oliver**

Cafodd Blwyddyn 3 fore diddorol ym mwyty Jamie Oliver yn y dref. Uchafbwynt yr ymweliad i'r dosbarth oedd y cinio blasus yn y bwyty!

**Llangrannog**

Bu Blwyddyn 6 yn edrych ymlaen yn awchus at eu hymweliad â Llangrannog ers blynyddoedd! O'r diwedd, ym mis Hydref eleni, daeth eu cyfle i fynd. Ym marn Macaulay Jones, 'Yr wythnos yn Llangrannog yw'r wythnos orau dw i wedi'i chael erioed. Roedd yn well nag America!' Diolch yn arbennig i Mr Elis a Miss Fouladi am ofalu am y plant yn ystod yr ymweliad.

**Pwll glân**

Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn brysur yn clirio pwll yr ysgol. Diolch i Flwyddyn 5 am eu gwaith caled ac i Mrs Gray am drefnu.

**Gwasanaeth diolchgarwch**

Daeth y plant â chyfraniadau o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Cafwyd cyfraniadau cerddorol graenus yn y gwasanaeth gan bob dosbarth.

## Ysgol Mynydd Bychan

Derbyniodd côr yr ysgol wahoddiad i ganu yn yr Arena Ryngwladol ym mis Tachwedd, a hynny er budd Plant Mewn Angen. Gan mai ni oedd yr unig ysgol Gymraeg yno cawsom y fraint o ganu gyda'r enwog Gwawr Edwards. Dymunwn ddiolch i Elvira Griffiths a Leah Roberts am eu gwaith yn hyfforddi.

Mae'r Clwb Brecwast yn mynd o nerth i nerth, a dymunwn ddiolch i Claire Hill, Rachel Chugg, Siân Muliro a Debbie Jemmett am eu gwaith caled a dderbyniodd glod gan yr awdurdod lleol.

Daeth cwmni teledu CBBC i'r ysgol i gynnal clyweliadau ar gyfer y rhaglen *Incredible Edibles*. Llongyfarchiadau i Joel Adams, Tom Rhydderch ac



*Pennaeth Ysgol Mynydd Bychan, Sian Evans (ar y chwith) gyda chynrychiolwyr o wledydd Iwerddon, Yr Alban, Lloegr, Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw.*

Enfys McMillan ar gael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen. Aethant i'r Alban yn ystod gwyliau hanner tymor ar gyfer y ffilmio. Edrychwn ymlaen at gael eu gweld ar y sgrin yn fuan!

Yn ystod mis Tachwedd buom yn dathlu 'Wythnos Aml Ddiwylliannol'. Dewisodd pob dosbarth wlad o ardal Polynesia i'w hastudio, a thrwy hynny cawsom gyfleoedd i greu gwaith celf, dysgu ieithoedd a choginio. Buom hefyd yn dathlu 'Wythnos Gwrthfwlio', gan atgoffa'n gilydd o bwysigrwydd dangos parch at bob unigolyn.

Y Parchg Alun Tudur oedd siaradwr ein hoedfa ddiolchgarwch eleni, ac yn ôl ei arfer, clywsom neges bwysig ac amserol ganddo. Dymunwn ddiolch i holl blant yr ysgol am eu haelionni eto eleni. Cyflwynwyd y cyfraniadau niferus i Fanc Bwyd Caerdydd, ac fe gasglwyd £170 tuag at Ysbyty Felindre.

Llongyfarchiadau mawr i Skyla Sims, Blwyddyn 5, ar gael ei dewis i dîm gymnasteg Cymru. Am gamp – gwych!

Braint i'r ysgol ar ddiwedd mis Tachwedd oedd croesawu swyddogion o lywodraeth Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Yr Alban, Lloegr, Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw! Daethant i weld yr arfer dda sy'n bodoli yn sgil cysylltiadau rhwng y rhieni/gofalwyr a'r ysgol.

## Ysgol Plasmawr

**Pythefnos Patagonia**

Mae'n anodd credu beth allwch ei gyflawni mewn pythefnos – yn enwedig pan fyddwch ar wibdaith gyda'r Urdd ym mhen draw'r byd! Rydw i a thair o fy nghyd-ddisgyblion (Catrin Cox, Catrin Williams a Luned Phillips), ynghyd ag 20 o bobl ifanc brwdfrydig o dde Cymru, newydd ddychwelyd o brofiad bythgofiadwy ym Mhatagonia. Roedd ymweld ag ysgolion cyfrwng-Cymraeg yn y Gaiman, ogofâu ym Mhorth Madryn a thai te yn Nhrevelin, a rafftio dŵr gwyn yng nghanol yr Andes, yn rhai o'r profiadau cyffrous a gawsom ni yno – ac i goroni'r cyfan, dod yn fuddugol yng



*Pythefnos Patagonia*

nghystadleuaeth côr *Eisteddfod del Chubut!* A'r cyfan mewn pythefnos … anhygoel!

***Anna Powys (Blwyddyn 13)***

**Clwb Ffilm**

Daeth un o wynebau mwyaf amlwg Cymru i Glwb Ffilm newydd Ysgol Plasmawr ym mis Tachwedd. Fe wnaeth Steffan Rhodri, un o sêr *Harry Potter and the Deathly Hallows: Part I*, sy'n adnabyddus i'r rhan fwyaf ohonom fel 'Dave Coaches' cyfres *Gavin and Stacey*, dreulio amser yn sgwrsio â disgyblion ac yn ateb eu cwestiynau - cwestiynau am faterion mor eang â'i berthynas â chyfarwyddwyr a'r defnydd o'i fwstas mewn ffilm! Bu'n gyfle gwych i ddysgu mwy am ddiwydiant y byd ffilm, i glywed ambell hanes difyr ac i annog brwdfrydedd aelodau'r Clwb.



*Steffan Rhodri ac aelodau'r Clwb Ffilm*

**Hwylras**

Codwyd dros £3000 ar gyfer Hosbis Gofal George Thomas ar ddiwedd mis Hydref.

***Dan y Wenallt***

Llongyfarchiadau gwresog i'r staff a disgyblion a fu ynghlwm â'r perfformiadau cyhoeddus o glasur Dylan Thomas yn ystod mis Tachwedd.

**Llongyfarchiadau** i Cathryn Thomas (Pennaeth Ffrangeg) ar enedigaeth mab bach, Gruffudd, yn ystod yr wythnosau diwethaf, a...

**Ffarwel** i Lowri Williams (Drama) sydd yn dychwelyd i'w milltir sgwâr yn y Canolbarth gyda'i theulu ifanc.

# Cyngerdd Dathlu Hanner Canmlwyddiant Rhydfelen

Fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd*, mae rhyw ramant arwrol arbennig yn perthyn i ddechreuadau Ysgol Rhydfelen, yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf yn y de. Yn ein dydd ni, hawdd yw anghofio bod addysg Gymraeg wedi ei geni a'i meithrin trwy frwydr aberthol ei chefnogwyr arloesol ac ysbryd mentrus y rhieni cyntaf a ymddiriedodd ddyfodol eu plant i ofal pennaeth ifanc deinamig, Gwilym Humphreys, ac ymroddiad byrlymus ei staff.

Ar nos Wener, 23 Tachwedd, yn Theatr Reardon Smith, cafwyd cyfle i gofio nid yn unig sefydlu'r ysgol hanner can mlynedd yn ôl, ond hefyd ei thyfiant a'i llwyddiant. Fel y nododd Peter Griffiths yn ei sylwadau o'r llwyfan, roedd y llwyddiant yna yn allweddol i ddatblygiad llu o ysgolion Cymraeg o fewn y dalgylch gwreiddiol – gan gynnwys, wrth gwrs, holl rwydwaith ysgolion Cymraeg y brifddinas.

Ond nid darlith hanes gafwyd ar y nos Wener honno. Roedd y cyngerdd yn frith o berfformiadau o safon, atgofion personol a chyffyrddiadau doniol. Fframwaith y noson oedd pum degawd bodolaeth yr ysgol. Cafodd pob un ei chyflwyno'n gelfydd gan gyn-ddisgybl o'r cyfnod – Jon Owen Jones, Vaughan Roderick, Gareth Potter, Aneurin Karadog a Bethan Walkling. Roedd cynhesrwydd ymateb y gynulleidfa yn nodwedd amlwg o'r achlysur. A phwy fyddai'n methu cynhesu at lais Cleif Harpwood a Delwyn Sion yn perfformion'n fyw o'n blaen rai o'r caneuon sydd wedi bod yn drac sain i fywydau cynifer ohonom? Neu asbri lleisiau swynol côr o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol bresennol yn datgan cariad a brwdfrydedd dros eu hiaith a'u hetifeddiaeth? Neu egni heintus dawnswyr Eirlys Britton, cyn-ddisgybl arall, a ddaeth â lliw a chynnwrf ysgafndroed Nantgarw i'n plith?

Nodwedd bellach o'r noson oedd y defnydd o glipiau fideo wedi eu cydosod i greu pasiant cyffrous o wynebau a digwyddiadau – boed yn Marc Titley neu Kevin Morgan yn tirio dros Gymru, neu Dudley yn recordio rhaglen fwyd yn adeilad Powys. Profiad arbennig oedd gweld rhan o gyfweliad teledu Gwilym Humphreys lle bu'n edrych yn ôl ar ddyddiau cynnar yr ysgol. Roedd ei ôl, yn wir, yn amlwg drwyddi draw, a'i gyfraniad e – ac, yn wir, cyfraniad Rhydfelen – i addysg Gymraeg yn plethu trwy'r cyfan.

Roedd llawer o'r mwynhad yn deillio o'r cyfle i gyfarfod eto â chynifer o ffrindiau, rhieni, aelodau staff, llywodraethwyr a chyn-ddisgyblion yr oedd eu cyfeillgarwch wedi tyfu yn yr ymdrech i sefydlu'r ysgol a cheisio cynnal ei gwerthoedd a'i safonau. Roedd nifer wedi teithio o bell i fod yno, a braf eithriadol oedd gweld Mrs Carys Humphreys, Nia a Gareth yn ôl yng Nghaerdydd yn unionswydd ar gyfer y noson.

Lle sydd yma am giplun yn unig o ddigwyddiad cofiadwy. Mae ein diolch yn mynd i bawb a gyfrannodd, boed yn unawdwyr canu neu lefaru, o flaen neu y tu ôl i'r llwyfan. Peth peryg yw enwi unigolion bob tro, ond rhaid cyfeirio yma at gyfraniad cynhyrchydd a chyfarwyddwr y noson, Russell Isaac. Ei weledigaeth a'i arbenigedd e, mewn partneriaeth ddiflino â Delwyn Sion, oedd y sbardun a yrrodd yr holl drefniadau ymlaen.

Erbyn hyn, er mawr siom i lawer, mae 'Rhydfelen' fel enw ysgol wedi ei osod o'r neilltu. Ond ni aiff byth yn anghof tra y bydd addysg Gymraeg. Y gobaith yw y bydd y cyngerdd hwn yn rhan o ymdrechion parhaus i gynnal yr hen fflam ac i gadw enw mor arwyddocaol yn fyw yn ymwybyddiaeth cenedlaethu sydd i ddod. Dyma beth oedd, felly, noson i gofio, a noson i'w chofio yn wir.

**Phil Ellis**

# Clwb y Diwc a dyfodol y *Duke of Clarence*

Roedd pumed tymor Clwb y Diwc yn argoeli'n un da. Ddiwedd mis Medi fe gafwyd noson wefreiddiol gyda H (cyn-aelodau Edward H Dafis) ac Einir Dafydd. Tafarn y *Duke of Clarence* yn Nhreganna dan ei sang ar ôl i bob tocyn gael ei werthu ymlaen llaw. Roedd 'na ddigon o edrych 'mlaen ar gyfer y gig nesaf ym mis Tachwedd gydag un o grwpiau mawr eraill y gorffennol - Maffia Mr Huws. Ond er mawr siom i bawb, nid felly y bu.

Yn ddisymwth iawn, ganol mis Hydref, fe gaeodd y *Duke of Clarence* ei drysau. Roedd pwyllgor Clwb y Diwc wedi bod yn ymwybodol ers peth amser ei bod hi'n anodd ar y rheolwyr, Eric a Linda. Mae'r dirwasgiad ariannol wedi bod gyda ni ers blynyddoedd bellach ac mae'n gadael ei ôl. Mae deunaw o dafarnau yn cau bob wythnos ar hyd a lled Prydain ac fe drodd y *Duke of Clarence* yn un o'r ystadegau hynny ym mis Hydref.

Mae'r *Duke* wedi bod yn ganolbwynt i fywyd Cymraeg Treganna ers blynyddoedd bellach. Fan hyn roedd cyfarfodydd Pwyllgor Apêl Eisteddfod 2008 yn cael eu cynnal ac fe esblygodd y pwyllgor hwnnw i fod yn Glwb y Diwc ar ôl i'r Eisteddfod adael a throi am y Bala. Mae Clwb Cymric yn cwrdd yma, Cymdeithas Rhieni Ysgol Treganna a changen leol Plaid Cymru, heb sôn am ddigwyddiadau bach a mawr eraill.

Bragdy Brains yw perchnogion y *Duke of Clarence* ac mae pwyllgor Clwb y Diwc wedi bod mewn cysylltiad cyson â nhw dros yr wythnosau diwethaf i weld beth yw eu cynlluniau ar gyfer y dafarn gymunedol hon. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* weld golau dydd fe fydd y dafarn wedi ailagor gyda rheolwyr newydd wrth y llyw. Bydd pwyllgor Clwb y Diwc yn trefnu cyfarfod gyda nhw cyn gynted â phosibl i weld a ydyn nhw'n awyddus i weld digwyddiadau Cymraeg yn parhau yn y dafarn. Mae gyda ni galendr llawn eisoes wedi'i drefnu hyd at yr haf nesaf ond mae angen cartref arnon ni.

Noson Nadoligaidd i'r teulu yw'r digwyddiad nesaf, ar nos Iau, 20 Rhagfyr. Gyda lwc yn y *Duke of Clarence* y bydd y noson hon – cadwch olwg ar Facebook, Twitter a digwyddiadur Menter Caerdydd i gael gwybod yn union. Gobeithio wir y bydd y rheolwyr newydd mor gefnogol i'r Gymraeg ag yr oedd Eric a Linda ar hyd y blynyddoedd.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebeneser

**Dathlu Deugain**

Mae Nansi Evans wedi bod yn gwasanaethu Cymdeithas y Beibl yn ddiflino ers deugain mlynedd. 'Diolch am ei dyfalbarhad yng ngwaith yr Arglwydd' oedd neges Watcyn a Lowri James iddi. Gallwn ond ategu hyn fel teulu Ebeneser.

**Awduron**

Ar nos Fawrth, 20 Tachwedd, yn y *Mochyn Du* lansiwyd nofel newydd, *Y Groes Naidd* (Gwasg Gomer). Ffrwyth dychymyg a gwaith ymchwil manwl dau o aelodau Ebeneser yw hi, sef Lyn Jones a Melfyn Hopkins. Mae'n nofel ag iddi elfen hanesyddol; yn stori dditectif, yn afaelgar ac yn hawdd iawn ei darllen. Gweler mwy ar dudalen 3.

**Bedydd**

Ar fore Sul, 25 Tachwedd, a ninnau ar bererindod, cawsom ein gwasanaeth bedydd cyntaf yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Alys Haf a fedyddiwyd, sef merch Hugo a Wendy a chwaer fach William a Hannah. Mae hi'n wyres hefyd i Cedric a Brenda Jones a Gerry a Pat Burke. Pob bendith i'r teulu bach.

***Paradise Run***

Y mae Ebeneser newydd ymuno â rota o 40 o eglwysi yng Nghaerdydd a'r cylch sy'n bwydo'r digartref bob nos ar Heol Siarl. Ein noson gyntaf ar y rota oedd 25 Tachwedd a daeth criw da at ei gilydd i fwydo oddeutu 60 o'r digartref â phryd cynnes a phaned. Cafodd y digartref becynnau bwyd i fynd â hwy hefyd.

**Ymgyrch myfyrwyr**

Cynhaliwyd ymgyrch fawr Undebau Cristnogol colegau Caerdydd yn ystod wythnos 26 i 30 Tachwedd. Teitl yr ymgyrch eleni oedd *Convinced* ac yn ystod yr wythnos flaenorol bu'r myfyrwyr yn gweddïo 24 awr y dydd am wythnos. Braint i ni fel eglwys oedd cael cefnogi'r ymgyrch a'r gweithgareddau.

***Cayo Arms***

Unwaith y mis cynhelir cyfarfod Cristnogol anffurfiol yn y *Cayo Arms*, Ffordd y Gadeirlan. Nod y noson yw hel criw o oedolion ifanc at ei gilydd i drafod ffydd a Christnogaeth. Am ragor o fanylion cysylltwch â Carl Morris (carl@quixoticquisling.com).

## Bethel, Rhiwbeina

Cafodd Mared Grug Lewis, merch Eirian a Darren Lewis, Pontypridd, ei bedyddio gan y gweinidog, y Parchg T. Evan Morgan, ar 4 Tachwedd. Mae Mared yn wyres i Hafwen a Gwyndaf Roberts a Hafwen oedd wrth yr organ yn ystod yr oedfa.

## Salem, Treganna

**Bedydd**

Bedyddiwyd Deiniol, mab Dafydd a Siân, ar 4 Tachwedd. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

**Noson 'Cwestiyna a lasagne'**

Cawsom noson arbennig o dda er budd apêl Guatemala ar 8 Tachwedd yng ngwesty Elgano, Heol y Gadeirlan. Diolch yn arbennig i Graham Bowen ac Aled Wyn am y cwis, ac i Elgan a Hazel am y wledd ac am sicrhau llwyddiant y noson. Cafodd y tocynnau i gyd eu gwerthu'n gyflym, a chafwyd noson i'w chofio! Llwyddwyd i godi £540 tuag at yr achos. Penigamp!

**Y Grŵp Canu a'r Clwb Llyfrau**

Mae'r cantorion wedi bod wrthi'n brysur yn paratoi eitemau ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig. Cyfarfu'r Clwb Llyfrau hefyd i drafod *Bore Da* gan Gwennan Evans.

**Adran yr Urdd**

Mae'r adran wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y mis, un sesiwn o dan ofal yr Urdd ac un sesiwn yn paratoi addurniadau Nadolig. Edrychwn ymlaen at y parti Nadolig yn ystod mis Rhagfyr.

**Clwb Coffi a'r Clwb Brecwast**

Mae'r Clwb Coffi a'r Clwb Brecwast wedi bod cyfarfod yn ystafell Edwin yn ystod y mis.

**Taith dramor i Dunfield!**

Aeth 23 o bobl ifanc y capel am benwythnos i Dunfield, i aros mewn canolfan hynod ddymunol gyda chyfleusterau sy'n cynnwys pwll nofio a digon o le ar gyfer gweithgareddau o dan do. Roedd angen hynny oherwydd y tywydd! Cafwyd penwythnos arbennig, o grwydro'r Gelli Gandryll i nofio, a nosweithiau yn llawn hwyl.

**Cylch Trafod Beiblaidd**

Cyfarfu'r cylch trafod yn ystafell Edwin ar 14 Tachwedd i drafod hanes y Samariad Trugarog.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Croeso mawr i chi ymuno â ni dros yr Ŵyl yn ein gwasanaethau:

16 Rhagfyr - 10:30 y bore – Gwasanaeth yr Ysgol Sul

16 Rhagfyr - 6:00 yr hwyr – Gwasanaeth y Goleuni, gydag aelodau'n cymryd rhannau arweiniol

23 Rhagfyr - 10:30 y bore – Gwasanaeth llith a charol

24 Rhagfyr - 11:30 yr hwyr – Cymun a charolau

Dydd Nadolig - 9:30 y bore – Gwasanaeth teuluol i ddathlu'r Nadolig

## Tabernacl

**Ysgrifenyddiaeth**

Yng nghyfarfod diweddara'r diaconiaid dewiswyd Robert Nicholls yn olynydd i Eirlys Pritchard Jones, ac edrychwn ymlaen at gydgordio effeithiol rhwng Robert a Marc wrth wasanaethu'r eglwys fel cyd-ysgrifenyddion.

**Genedigaeth**

Rhannwn lawenydd teulu Lowri a Tom Guy wrth iddynt groesawu eu mab, Wil, i'w haelwyd.

Llongyfarchiadau i Aled a Lynwen John ar enedigaeth Gethin Rhys - mae Siân a Denzil wrth eu bodd. Cyd-ddathlwn hefyd enedigaeth Erin Llwyd, plentyn cyntaf Rhys a Bethan Llwyd Parsons.

**Drama'r Nadolig**

Cytunwyd bod y cyflwyniad o ddrama'r Nadolig yn cael ei leoli yn festri'r Tabernacl eto eleni. Y weledigaeth fawr yw dwyn neges y Nadolig yn fyw i bobl Caerdydd. Bydd perfformiadau dyddiol rhwng 10

y bore a 6 yr hwyr, gyda'r neges yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

**Cymdeithas Nos Fawrth**
Cafwyd noson hwyliog yng nghwmni Gwenllian Evans a Dafydd Williams yn sôn am fröydd eu magwraeth ar noson gyntaf y rhaglen. Daeth nifer dda ynghyd i wrando ar Gwyneth Glyn yn rhoi ychydig o gefndir nifer o'i chaneuon oddi ar ei CD newydd.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Mae Cymdeithas y Chwiorydd wedi dechrau gyda chyfarfodydd difyr. Ar ôl gwasanaeth y cynhaeaf o dan arweiniad y gweinidog cafwyd cyfle i fwynhau cwmni Walter Bundock, ac yna rannu cwmni aelodau chwiorydd Eglwys Ebeneser.

**Academi Llais**
Yn ddiweddar trefnwyd bod Academi Llais Rygwladol Cymru yn cynnal eu cyngherddau a'u dosbarthiadau meistr yn y Tabernacl. Byddant yn cadw piano o safon yn y capel, ac mae'n braf meddwl bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i'r cyfeiriad hwn.

**Lesotho**
Bu dwy o Sefica mewn oedfa yn y Tabernacl yn ddiweddar, gan adrodd am dlodi cynyddol y wlad. Rydym eisoes yn cyfrannu i dalu am fwyd penwythnos i nifer o bobl ifanc o dan ofal Me Caselin, ond mae'r gofyn yn cynyddu. Diolch i Nia McVeigh am gasglu arian i'r gronfa drwy redeg yn yr hanner marathon.

## Eglwys Dewi Sant

**Croesawu**
Hyfryd oedd croesawu'r canlynol a gafodd eu bedyddio'n ddiweddar: Guto Teifi Harvard Davies, mab Nia a Ieuan, a Seth Teifi Morris, mab Siân a Rhys.

**Llongyfarchiadau…**
... i Catrin a Dave Taylor ar eu priodas ar 1 Tachwedd. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd gan Ann Mears, mam Catrin.

**Sul y Cofio**
Cynhaliwyd cyngerdd yn yr eglwys nos Sul y Cofio gan Gôr Caerdydd. Cyflwynwyd yr eitemau gan Wyn Mears, a chafwyd amrywiaeth hyfryd o gerddoriaeth bwrpasol ynghyd â diweddglo grymus dehongliad y côr o'r gerdd 'Y Tangnefeddwyr'.

**Ffair Grefftau**
Roedd hwn yn achlysur newydd a llwyddiannus dros ddeuddydd. Roedd yn gyfle i groesawu stondinwyr ac ymwelwyr ac i chwyddo'r coffrau ar yr un pryd.

**Cymorth Cristnogol**
Roedd gan yr eglwys stondin *delicatessen* yn y bore coffi a gynhaliwyd yn Salem Treganna er budd gwaith Cymorth Cristnogol a boddhad mawr oedd cael cyflwyno swm da i'r achos teilwng hwn.

## Eglwys y Crwys

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Lisa a Ross Poulter ar enedigaeth Trystan Aaran yng Nghaeredin; ŵyr bach cyntaf Gareth a Gwen Edwards a gor-ŵyr i Doris James. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Mr Winston Roddick ar gael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y swydd bwysig hon.

**Bedydd**
Cafwyd gwasanaeth hyfryd o dan arweiniad y Parchg Glyn Tudwal Jones pryd y bedyddiwyd Tegwen Athina, merch fach Athasios a Mererid Velios, wyres y Parchg Tom a Gwen Roberts a Mr a Mrs Velios, Athen, heb anghofio ei chwaer fawr Mari.

**Diolchgarwch**
Yn ystod tymor y diolchgarwch bu'r Ysgol Sul, ar y cyd â'r Cylch Cymorth, yn casglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Braf yw cofnodi y dyblwyd cyfraniadau y llynedd a diolchir yn gynnes i aelodau'r eglwys am eu haelioni.

**Y Gymdeithas**
Cafwyd gwibdaith i Gadeirlan Wells o dan arweiniad yr Athro John Gwynfor Jones cyn symud ymlaen i Ganolfan Siopa Street. Diolch i Peter a Catrin Rowlands am drefnu diwrnod bendigedig. Yn ddiweddarach ym mis Tachwedd cafwyd perfformiad Cwmni Theatr Cymru o'r ddrama *Drwy Ddulliau Chwyldro*. Daeth nifer teilwng i fwynhau noson arbennig iawn.

**Y Grŵp Merched**
Cynhaliwyd Noson Agored hollol arbennig yng nghwmni Dr Christine James. 'Ysgrifennu rhwng y llinellau' oedd testun ei hanerchiad ac aeth â ni trwy gyfrwng ei barddoniaeth ar y bererindod a arweiniodd i ferch o gartref di-Gymraeg yn y Rhondda ennill Coron Eisteddfod Eryri yn 2005 ac i'w hethol yn Archdderwydd.

**Y Gorlan**
Cafwyd gwibdaith o amgylch Bro Morgannwg o dan arweiniad yr Athro John Gwynfor Jones. Ymwelwyd â Trehill, Bethesda'r Fro, Treflemin, Llancarfan a Llanilltyd Fawr, gan aros yn y Bontfaen am de pnawn cyn troi tuag adre. Yna, ym mis Tachwedd, cafwyd pnawn hyfryd yng nghwmni Mrs Rhiannon Gregory.

## Minny Street

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn ddiolchgar am Judith Morris (Llandaf) a fu farw ar 14 Tachwedd wedi cystudd hir. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu.

**Priodasau**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Peter Gillard a Rhian (Linecar) yn dilyn eu priodas yn Sain Ffagan ddechrau mis Tachwedd ac i Rhodri Jones a Rhian (Williams) yn dilyn eu priodas hwythau yn Miskin Manor ganol Tachwedd.


**Genedigaeth**
Croeso cynnes i Meg Llywelyn, merch i Catrin a Rhodri a chwaer i Gruff a Cai; i Samuel Stopford Kenny, mab i Lisa a Sasha a brawd i Megan; i Ioan Alexander Dafydd, mab i Hywel a Jenny; ac i Osian Rhys Jones, mab i Huw Euron a Meinir. Dymunwn yn dda i'r teuluoedd oll.

**Gweithgareddau**
Mae'r flwyddyn waith wedi dechrau o ddifrif, gyda'r diaconiaid newydd yn dechrau ar eu gwaith yn y Cylchoedd, y Gymdeithas yn denu siaradwyr difyr, y teithiau cerdded yn cael tywydd da bob tro, a sesiynau Bethania yn trafod Credo'r Apostolion. Digon i'w wneud yn ystod y gaeaf!

## DINESAIR Rhif 128

### Ar Draws

3. Offeryn y dyn yn y canol (9)
6. 'Crwydro am oes lle y mynno ei hun
   - ---- lle mynno Duw' (E.W.) (1,4)
7. Y crëwr yn cyrraedd i roi hawl (9)
8. Dwli yw torri ffiol Ben (7)
11. Rhyfeddu bod murmur yn amgylchynu'r coed (5)
12. Ysgwyda berfedd y fonesig lawen (5)
14. Mawrion canrif a rhai o blith y dewrion (5)
15. Lles yw cael lle i un mewn tas (7)
18. 'Wel dyma un, O! ------ ---
    Y gwelir arall fel Efe.' (W.W.) (6,1'2)
19. 'Gwêl a oes ynom bechod cudd
    A ----- ein hychydig ffydd' (E.W.) (5)
20. Trio brysio Dylan bach a'i symbylu (9)



### I Lawr

1. 'Maent yn dwedyd y ffordd yma
   --- --- --- mor oer â'r eira (tradd.) (3,3,3)
2. Perthnasau Anti Diana wedi gwylltio (4,1,4)
3. Awel o ben Eryri yn dwyn persawr o fath da (7)
4. Mae'n sant bron bob hwyrddydd (5)
5. Codi deg o'r gwaelod (5)
8. 'A phan y syrthio sêr y nen
   Fel ----- ir i'r llawr' (W.W.) (5)
9. Cyfarchiad hwyrol (7,2)
10. 'Yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth
    Yn anfeidrol wir a ------ ---' (A.G.) (6,3)
13. Mae Cadi yn drysu mewn lle o addysg (7)
16. Maldod cael stêm di-ddiwedd ar ddechrau'r sawna (5)
17. Cyflwr corff ŷch Dei efallai (5)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 15 Ionawr.

---

**Enillydd Croesair Rhif 126 -**

**Siôn Lewis, Cydweli**

**Atebion Rhif 126**

**Ar Draws** – 1. Yn gyntaf; 5. Achos; 8. Gwawriodd; 9. Hybu; 11. Golygus; 13. Waldo; 14. Gan y doethion; 18. Ymuno; 19. Arestio; 21. Nerth; 22. Yn gwario; 24. Salw; 25. Cyfnither.

**I Lawr** – 1. Ysgogi; 2. Gwael; 3. Nero Grythor; 4. Addo; 6. Chwyrlio; 7. Stumog; 10. Gwrthwenwyn; 12. Siopa; 15. Aruthrol; 16. Cynnes; 17. Mor oer; 20. Toreth; 23. Nwy.

---

**Gwefan Minny Street**

Gweler www.minnystreet.org am fanylion ein gweithgareddau, am *Funudau i Feddwl* a phregethau ein gweinidog, am hanes ein Cylchoedd ac yn y blaen.

## Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

**Gwaith Plant**

Ers mis Medi mae Clwb yr Hapus Awr, sef ein clwb i blant oedran cynradd, wedi bod yn cyfarfod yn un o neuaddau chwaraeon Ysgol Glantaf. Mae wedi bod yn galondid mawr gweld y niferoedd yn cynyddu o wythnos i wythnos yn ystod y tymor, a gobeithio mai tyfu a wnân nhw eto nes bod y neuadd dan ei sang! Croeso i chi blant ymuno â ni, bob nos Lun rhwng 17:30 a 18:30 yn ystod tymhorau'r ysgol.

**Clwb Sbri**

Ar ddechrau gwyliau hanner-tymor yr Hydref fe gynhalion ni Glwb Sbri yn ein hadeilad yn Harriet St, Cathays - unwaith yn rhagor, ar gyfer plant rhwng 5 ac 11 oed. Cafwyd llawer o hwyl wrth i ni glywed straeon am Dafydd, a'r ffordd y cododd Duw ef o fugeilio defaid ei dad i fod yn frenin dros Israel gyfan. Diolch i bawb a ddaeth i'r Clwb, a hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Y bwriad yw cynnal Clwb Sbri eto yn ystod gwyliau hanner-tymor mis Chwefror - edrychwch allan am ragor o wybodaeth yn nes at yr amser.

**Y Nadolig**

Rydym yn brysur ar hyn o bryd yn ymbaratoi ar gyfer sawl oedfa arbennig dros yr wythnosau nesaf. Byddwn yn cynnal noson garolau yn y capel yn Harriet St am 18:00 ar 9 Rhagfyr. Wedyn ar yr 16eg byddwn yn ymgynnull yn ôl ein harfer am 18:00 yng nghapel Tabernacl y Presbyteriaid, yn yr Eglwys Newydd, eto ar gyfer oedfa garolau. Byddwn yn cynnal oedfa deuluol yn y capel yn Harriet St am 10:00 ar fore'r 23ain. Croeso cynnes i bawb i bob un o'r cyfarfodydd hyn ... ac os gwelwch chi ni yn canu carolau o amgylch Cathays a'r Eglwys Newydd rywbryd yn ystod yr wythnosau nesaf, wel dewch i ymuno â ni yn y canu! Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni.

# Calendr y Dinesydd • Rhagfyr - Chwefror

**Llun, 10 Rhagfyr**
Merched y Wawr. Gwasanaeth Carolau'r Rhanbarth dan ofal canghennau Merthyr a Chwm Rhymni yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful.

**Mawrth, 11 Rhagfyr**
Merched y Wawr Caerdydd. Gweithdy copr – *repussé* – gyda Bethan Green, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7:30 p.m.

**Iau, 13 Rhagfyr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7:00 p.m. ar gyfer 7:30 p.m.. Gwesteiwraig: Elinor Bennett. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Sadwrn, 15 Rhagfyr**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg, rhwng 10:30 a 12:00. Am 11:00 a.m., sgwrs gan Dr Christine James, yr Archdderwydd etholedig, am Gwm Cynon. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Nadolig gydag Eilonwy Jones ac Eleri Morgan, yn festri Capel Minny Street am 7:30 p.m. Pwnsh a mins peis i ddilyn.

**Mercher, 19 Rhagfyr**
Aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn cyflwyno noson yng nghwmni Y Tri Thenor a Chôr y Mochyn Du, yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, CF15 9HL, am 7:30 p.m. Noson i godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru. Tocynnau: £10 (£5 i blant). I archebu tocyn, ebostiwch gwaelodygarth@hotmail.com

**Sadwrn, 22 Rhagfyr**
Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. Gêm yn erbyn Wattstown ar Gaeau Llandaf, Pontcanna, am 2:30 p.m., a chroeso i bawb yn yr *Halfway* ar ôl y gêm.

**Llun, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Gwasanaeth carolau a chanhwyllau, dan ofal Gwenda ac Eleri, yng nghapel Bethel am 11:00 p.m.

**Sadwrn, 29 Rhagfyr**
Gêm rygbi: CWINS Caerdydd v. Nant-y-moel, C.G. 2:30 p.m., Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm!

**Mercher, 2 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. Gwaith cywrain Sandra Rose, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7:30 p.m.

**Llun, 7 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7:30 p.m. Prif westai: Jane Davidson, a fydd yn siarad am Gymru Gynaliadwy. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 8 Ionawr**
Merched y Wawr Caerdydd. 'Cerddi'r Fro': sgwrs gan Emyr Edwards, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7:30 p.m.

**Mercher, 9 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Orig yng nghwmni Sandra De Pol a Rhisiart Arwel, yn festri Capel Minny Street am 2:00 p.m.

**Sadwrn, 12 Ionawr**
Gêm rygbi: CWINS Caerdydd v. Penarth, C.G. 2:30 p.m, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm!

**Sul, 13 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain dan arweiniad y Parchg Ddr R. Alun Evans, 2:00 p.m. yn Eglwys Teilo Sant, Amgueddfa Werin Cymru.

**Gwener, 18 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Allan James ar y testun 'Cofio John Morris-Jones', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7:00 p.m. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 19 Ionawr**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg, rhwng 10:30 a 12:00. Am 11:00 a.m., sgwrs gan Huw Pritchard am Ystradfellte. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 21 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7:30 p.m.

**Llun, 21 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Poblogeiddio Gwyddoniaeth': darlith gan Gareth Roberts (Prifysgol Bangor), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7:30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 22 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cyflwyniad i Waldo gan Aled Gwyn, yn festri Capel Minny Street am 7:30 p.m.

**Mercher, 23 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cwis dan ofal Mair ac Idwal Hughes, yn festri Capel Minny Street am 2:00 p.m.

**Gwener, 25 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson Santes Dwynwen, yng Nghlwb Golff Drysgol Road, Radur, am 7:30 p.m.

**Gwener, 1 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Walter Brooks ac Anna Powys yn sôn am y Wladfa ym Mhatagonia, yn festri Capel Salem, Treganna, am 7:30 p.m.

**Llun, 4 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7:30 p.m. Prif westai: Gareth Pierce, a fydd yn siarad am yr ymgyrch i achub Llangyndeyrn rhag cael ei foddi. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 5 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Eric Phillips a Janie Jones yn sôn am eu hoff recordiau, yn festri Capel Minny Street am 7:30 p.m.

**Mercher, 6 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I fyd y delyn dan ofal Caryl Thomas, yn festri Capel Minny Street am 2:00 p.m.

**Mawrth, 12 Chwefror**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Dr Christine James, yr Archdderwydd etholedig, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7:30 p.m.

**Gwener, 15 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Heini Gruffudd yn trafod ei gyfrol *Yr Erlid*, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7:00 p.m. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 16 Chwefror**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg, rhwng 10:30 a 12:00. Am 11:00 a.m., sgwrs gan Emyr James am yr Aifft. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 18 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Llŷr Dunsford o gwmni cig Charcutier, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7:30 p.m.

**Llun, 18 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. John Idris Jones (Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni Môn) yn siarad ar y testun 'Ynys Ynni – Datblygiadau Carbon Isel ar Ynys Môn', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7:30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). 'Perthnasau Draw.' Golwg ar ymfudo o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda Bob Puw. Manylion pellach: eirypalfrey@yahoo.co.uk

**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Hwyl a Sglods dan ofal Glyn Evans, yn festri Capel Minny Street am 7:30 p.m.

**Mercher, 20 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Amser i Newid?' Sgwrs gan Dr Elin Jones, yn festri Capel Minny Street am 2:00 p.m.

**Iau, 21 Chwefror**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7:00 p.m ar gyfer 7:30 p.m. Gwesteiwraig: Angharad Mair. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Mercher, 27 Chwefror**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson y Dysgwyr, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7:30 p.m.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Cymrodorion Caerdydd

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod 2 Tachwedd o'r Cymrodorion yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, oedd y Prifardd Emyr Lewis. Teitl ei gyflwyniad oedd 'Yncl Tom a Syr Tomos', sef trafod agweddau ar Syr T. H. Parry-Williams, a oedd yn hen-ewythr iddo. Cafodd y gynulleidfa luosog bortread cynnes, llawn hiwmor, o ymwneud Syr Tomos â'i deulu, a phwysleisiwyd pa mor ganolog oedd teulu i'w waith fel llenor. A throi at ei waith fel bardd ac ysgrifwr, dywedodd Emyr Lewis fod T. H. Parry-Williams fel pe bai'n cyfuno gwyddoniaeth a chyfriniaeth, ond nad oedd yn lladmerydd unrhyw 'Egwyddor Fawr'. Rhyfeddod, ansicrwydd a deuoliaeth sydd yn nodweddu ei waith, a thrwy'r cyfan, cyfaredd rhifolion arbennig – dau, un, hanner a dim. I gloi'r cyflwyniad, cawsom flasu rhai o'r cerddi/rhigymau ar derfyn *Olion*. Cynhaliwyd y cyfarfod arbennig hwn i ddathu camp T. H. Parry-Williams yn cipio'r goron a'r gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1912.

## Cymdeithas Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd

Daeth 60 ohonom ynghyd i ddathlu cinio blynyddol Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd, nos Iau, 15 Tachwedd. Ar ôl pryd o fwyd mwya' blasus roedd yn bleser gwrando ar ein gwraig wadd, Mrs Rhiannon Gregory, yn sôn am fywyd ym mhentre' bychan Ash Priors, ger Taunton yng Ngwlad yr Haf, yn ôl yn y 60au. Soniodd hefyd am bentre' cyfagos Combe Florey, lle bu Evelyn Waugh a'i deulu'n byw. Cawsom ein swyno wrth glywed yr hanes, a daeth Rhiannon â'r cyfan yn fyw i ni.

# Cymdeithas y Beibl: Nansi'n dathlu



Bu Mrs Nansi Evans yn aelod o bwyllgor Caerdydd o Gymdeithas y Beibl am ddeugain mlynedd. I nodi'r garreg filltir hynod hon, daeth aelodau yn cynrychioli naw eglwys a chapel at ei gilydd i'w anrhydeddu ar 6 Tachwedd ac i gyflwyno tystysgrif iddi, ynghyd â thorch o flodau. Mor anghyffredin yw achlysur o'r fath, fe anfonodd prif swyddfa Cymdeithas y Beibl yn Swindon ei ffotograffydd i'r cyfarfod arbennig hwn o'r *Cardiff Action Group* - ffotograffydd sydd yn teithio'r byd ar ran y Gymdeithas! Aelod yng nghapel Ebeneser yw Nansi. Mae'n byw yn y Tyllgoed ac yn hanu o Ynys-y-bwl. Dymunwn ei llongyfarch a diolch iddi am ei ffyddlondeb.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Hosbis Tŷ Hafan oedd dewis elusen y gymdeithas y llynedd a daeth yn amser cyflwyno siec i Alun Williams o'r elusen honno yn y cyfarfod ar 19 Tachwedd. Cyflwynodd Falmai Griffiths, Cadeirydd y gymdeithas, siec am £1000 i Alun. Mae angen tair miliwn o bunnoedd y flwyddyn i gynnal yr hosbis a daw'r cyfan o gyfraniadau unigolion a chymdeithasau.

Cefnogi Shelter Cymru bydd y gymdeithas eleni. Cafwyd cyfarchion o'r Gaiman heulog gan Gwilym Roberts, y Llywydd Anrhydeddus. Alun Guy fu'n diddanu'r aelodau wedyn gan olrhain ei fywyd fel cerddor fesul cam trwy ddarnau o gerddoriaeth. Magwyd ef ar aelwyd lle byddai Annie, ei fam, yn canu sonata o waith Beethoven tra oedd ei phlant yn paratoi i fynd i gysgu.

Ond nid y clasuron yn unig a gafwyd gan Alun ond *Toytown* a Winifred Atwell a Russ Conway, ynghyd ag emynau a darnau oratorio. Clywsom am alluoedd cerddorol bechgyn Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Cathays, fel Gilbert Ruddock, ynghyd â'u drygioni yn poeni disgyblion Ysgol y Merched.

Bu llawer o chwerthin a hel atgofion am gymwynasau lu Alun sydd wedi cyfoethogi bywyd cynifer yn ein cymuned. Diolchwyd yn gynnes iddo. Bydd y gymdeithas yn cwrdd nesaf ar 10 Rhagfyr i fwynhau swper Nadolig.



*Alun Williams, Tŷ Hafan, a Falmai Griffiths*

# CHWARAEON

## CLWB CYMRIC

Mae tywydd garw mis Tachwedd wedi amharu ar gemau Clwb Cymric: ddwywaith yn unig y chwaraeodd y tîm cyntaf yn ystod y mis. Yn gyntaf colli o un gôl i ddim oddi cartref yn erbyn Aberfan mewn gêm lle cafodd Cymric ddigon o feddiant ond, yn hollbwysig, dim goliau. Roedd y golled hon yn amlwg wedi gadael ei hôl ar y chwaraewyr wrth iddynt guro Rhydfelin o bedair gôl i ddim yr wythnos ganlynol, gyda'r hanner cyntaf yn un o berfformiadau gorau'r tymhorau diweddar. Sgorwyr Cymric ar y diwrnod oedd Osian Lloyd (2), Llŷr Roberts a'r bytholwyrdd Stuart Williams.



*Cefnwr Clwb Cymric, Llŷr Davies, yn mynd heibio'i ddyn!*




Un gêm yn unig a chwaraeodd yr ail dîm, ond cafwyd perfformiad arbennig wrth guro Cogan Coronation o bedair gôl i ddwy. Mae'r ail dîm yn dal yn ddiguro yn y gynghrair hyd yma, a'r ffaith fod Cogan yn ail yn y tabl cyn y gêm hon yn dangos bod yr ail dîm ar y trywydd iawn y tymor yma.

Ennill eu hunig gêm yn ystod y mis fu hanes CIC hefyd - dwy gôl i ddim yn erbyn Porthcawl, gyda goliau gan Tom Lewis a Will Bevan.

Mae newyddion arall o ddiddordeb, sef bod Clwb Cymric yn paratoi i ddechrau tîm hoci merched. Mae sesiynau ymarfer wedi dechrau yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed bob nos Lun, ac mae croeso i unrhywun â diddordeb mewn chwarae neu helpu i hyfforddi gysylltu â'r clwb drwy ebostio clwbcymric@hotmail.com

Mae manylion diweddaraf holl ddigwyddiau'r clwb ar gael ar y wefan www.clwbcymric.com

## Clwb Rygbi Caerdydd

Ar ôl dwy fuddugoliaeth wych - ennill i ffwrdd 14-3 yn Llanilltud Fawr, yna perfformiad campus i guro Pontycymer yn ysgubol 45-7, er mawr fwynhad i'r dorf ar feysydd Llandaf - mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn awr wedi symud i'r chweched safle yn y tabl.

Y gemau nesaf fydd: 8 Rhagfyr, Ffynnon Taf i ffwrdd, yna gêm ola'r flwyddyn gartref yn erbyn Wattstown (sydd ar hyn o bryd ar frig yr adran) ar 22 Rhagfyr.

## Ffilm Nadolig S4C am deulu go arbennig

*Teulu Tŷ Crwn* yw ffilm deulu fawr y Nadolig ar S4C dros yr Ŵyl. Ac mae'r ffilm gerddorol yn dilyn hynt a helynt brawd a dwy chwaer wrth iddynt ymladd i gadw eu cartref mewn pentref dychmygol yng Nghymru.

Cyd-gynhyrchiad yw'r ffilm rhwng cwmnïau Fflic ac Apollo, dau o gwmnïau Cynyrchiadau Boom Pictures. Bu'r camerâu wrthi'n ffilmio mewn lleoliadau gwahanol yn y Barri, ym Mro Morgannwg, yn Ninas Powys ac yng Nghaerdydd, gan gynnwys Ysgol Glantaf, Ysgol Pencae a Llandaf.

Meddai Comisiynydd Cynnwys S4C, Sioned Wyn Roberts, 'Mae'r ffilm yn addo mynd â ni ar siwrnai sy'n llawn emosiwn a hiwmor, ac fe fydd at ddant y teulu cyfan. Mae'n wych gweld cast ifanc, newydd sbon yn dod at ei gilydd i gydweithio ar y ffilm Nadolig.'



***Teulu Tŷ Crwn**: ffilm Nadolig gerddorol S4C*